Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Talyllychau, nos Fawrth 1 Tachwedd 2022, am 7.30 p.m.
Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Y Cynghorwyr Marged Bowen (Cadeirydd) Janine Roberts, Pauline George, John Williams, Aled Williams, Jane Morgan (sydd hefyd yn Glerc), y Cynghorydd Sir Fiona Walters. Ymddiheuriadau: Rhys Williams.
Hysbysiad ynghylch sedd wag ar gyfer Cynghorydd Cymuned. Croesawodd Marged Bowen (Cadeirydd) Roger Thomas sydd wedi derbyn swydd Cynghorydd. Roedd angen llenwi Ffurflen Datganiad Derbyn Swydd a'i hanfon, ynghyd ag enw a chyfeiriad a'r manylion cyswllt a ffefrir, i Gyngor Sir Gâr.
Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.
Materion yn codi.
Diolchodd Jane Morgan i'r Cynghorwyr am y cerdyn diolch a'r rhodd hyfryd a gafodd ganddynt yn y cinio.
Y Pagoda/Pafiliwn. Roedd y Clerc wedi edrych ar wahanol Bagodâu/Bafiliynau ar-lein ac, oherwydd bod cymaint o fathau gwahanol ar gael am brisiau gwahanol, gofynnodd i'r Cynghorwyr wneud ymholiadau ac adrodd yn ôl wrthi.
Swydd y Clerc. Mae'r Clerc wedi cysylltu ag Un Llais Cymru, Cyngor Sir Gâr a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ynghylch Clercod dros dro. Awgrymodd Un Llais Cymru y dylid cysylltu â Chymdeithas y Clercod Cynghorau Lleol. Mae neges wedi'i hanfon at y Gymdeithas ond nid oes ymateb wedi dod i law hyd yma. Nid oedd y Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Gâr yn gallu helpu. Cynigiodd Un Llais Cymru lunio graddfa gyflogau ac oriau am gost o £420.00. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd peidio â derbyn y cynnig hwn ac y byddai'r cyflog yn cael ei hysbysu ar y gyfradd y cytunwyd arni yn y cyfarfod diwethaf, sef £5,000 y flwyddyn gros ynghyd â threuliau. Cytunwyd y byddai angen llunio swydd-ddisgrifiad mwy manwl cyn i'r hysbyseb gael ei hailanfon, ac y byddai'r hysbyseb yn agored hyd nes y byddai'r swydd yn cael ei llenwi. Cytunwyd y byddai Marged Bowen (Cadeirydd) a Jane Morgan yn paratoi hysbyseb newydd ac yn ei hanfon at y Cynghorwyr i'w chymeradwyo. Cynigiodd Jane Morgan y gallai barhau yn swydd y Clerc yn ddi-dâl hyd ddiwedd y flwyddyn. Cytunwyd i wneud hyn
Diffibrilwyr. Cytunwyd i gysylltu â Phill Hill ynghylch cynnal Hyfforddiant ar ddefnyddio Diffibrilwyr.
Byddai rheoliadau'r Fynwent yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf.
Llythyr oddi wrth Kevin Donaldson ynghylch y Parc Chwarae – posibilrwydd trafod hyn yn y cyfarfod nesaf.
Y Cyfriflenni Banc Diweddaraf a Cheisiadau am Dâl. Talwyd siec (Gwariant y Cadeirydd) am £140.00 i'r Plough Rhosmaen.
Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post ac a anfonwyd ymlaen trwy e-bost.
Roedd *Clerks & Councils Direct* wedi dod i law.
Cynllunio.
Cais PL/04696 – Newid defnydd Uned Llety i Dwristiaid (sgubor wedi'i haddasu) yn Annedd Breswyl – Gwinionllethri, Talyllychau, SA19 7BZ.
Cais PL/04867 – Addasiadau i fyngalo ac adeiladu garej – Cwmglaw Bungalow, Talyllychau, SA19 7AZ. Dim gwrthwynebiadau.
Cais PL/04923 – Addasu llawr cyntaf annomestig uwchben garej presennol yn llety i westeion – Irongate Lodge, Talyllychau, SA19 7BX. Dim gwrthwynebiadau.
Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.
Rhoddodd y Cynghorydd Sir Fiona Walters ddiweddariad ar y materion canlynol: Arwyddion ynghylch Baeddu gan Gŵn ar Gae'r Ysgol/y Cae Cymunedol a Chae'r Cyngor Cymuned. Mae Cyngor Sir Gâr wedi cytuno i gasglu sbwriel.
Nid oedd yna unrhyw fusnes pellach, a daeth y cyfarfod i ben am tua.9.15pm. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 6 Rhagfyr 2022, am 7.30pm yn Ysgol Talyllychau.